

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 1af Mehefin 2016 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd P. Prendergast (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, S. H. Ratcliffe, A. J. Rutherford, D. Simmons, W. N. Tasker a'r Parchedig S. F. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref
Mr A. O. Williams – Swyddog Cyllid

1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), Ms J. Hughes (yn sâl), Mrs P. M. Jones (ymrwymiad teuluol), B. Mellor (ar wyliau), B. F. Moylan (yn sâl), Miss S. L. Roberts (yn sâl), Miss R. Siddall (ymrwymiad teuluol) a T. Thomas (ar wyliau).

2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – EBRILL 2016

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau a wnaed ym mis Ebrill 2016.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
001	Shire Leasing	337.33	Tâl Prydlesu Chwarterol ar gyfer system ffôn AVAYA
002	Blachere	1,711.20	6 golau newydd
003	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	4,500.00	Rhent ar gyfer Llawr 1af Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington
004	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	1,442.00	Cyfraniad Cynghorydd Budd-daliadau dan Hyfforddiant 11 o 12
005	HSBC	11.95	Taliadau Banc 17/02/16 i 16/03/16
006	Sage & Co	30.00	Ffioedd Cyflogres ar gyfer Ebrill 2016
007	Cyngor Sir Ddinbych	14.00	2 Docyn ar gyfer Gala'r Maer (Siec 203374)
008	Cyngor Sir Ddinbych	769.50	Atgyweirio Goleuadau 2015/16
009	Sioned Graham-Cameron	119.96	Ffioedd Cyfieithu Mawrth 2016
010	Conrad Office & Art	376.29	Archeb papurach Mawrth 2016
011	BJS Solutions	175.20	Adnewyddu Dreif Tâp USB (TANBERG)
012	Neopost	108.04	Cerdyn IJ25 ar gyfer Peiriant Ffrancio
013	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Mawrth 2016
014	Cyngor Sir Ddinbych	513.00	Y Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17 Rhan-daliad 1 o 10
015	CThEM	2,229.21	Didyniadau PAYE Mawrth 2016

016	Cyngor Sir y Fflint	3,538.70	Cyfraniadau Pensiwn Mawrth 2016
017	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,765.61	Cyflogau Staff Ebrill 2016
018	Neopost	200.00	Ychwanegiad Peiriant Ffrancio
019	T2Green	922.00	Cinio Elusen y Maer 15/04/16 - Clwb Golf y Rhyl
020	Barry Hamilton Photography	110.00	Ffotograffau CCB 2014
021	Barry Hamilton Photography	110.00	Ffotograffau CCB 2015
022	Cyngor Sir Ddinbych	5,000.00	Cyfraniad: Y Syniad o'r Rhyl Blwyddyn 2 o 3
023	Cyngor Sir Ddinbych	1,946.40	Cyfraniad: Gwelliannau Rhydwen Drive
024	Scottish Power	278.96	Cyflenwad Trydan ar gyfer Goleuadau 2015/16
	Cyfanswm Taliadau	32,649.35	
	Cinio'r Maer	2,217.00	Tocynnau, Raffl a Chyfraniadau
	Casgliadau Bwced Gala'r Maer	86.50	Casgliadau Bwced gan Gadetiaid y Môr
	HSBC	34.18	Llog ar Adneon Money Market
	Santander	1.70	Llog ar y Cyfrif Buddsoddi Ebrill 2016
	CThEM	5,192.25	Ad-daliad TAW Ionawr i fis Mawrth 2016
	Cyngor Sir Ddinbych	164,400.00	Praesept 2016/17 - 1 o 3
	Cyfanswm Derbynebaw	171,931.63	

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

3. **ARCHWILIO MEWNOL - TERFYNOL**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad yr Archwiliwr Mewnol (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r Aelodau ei gymeradwyo, a thynnodd sylw at dri maes lle mae angen gweithredu:

- Mân wall yn y llyfr ariannol yn dod i 11c oherwydd bod swm gwirioneddol y llog a gafwyd yn is na'r amcangyfrif.
- Nifer o weithiau pan gyflwynwyd adroddiadau cyllidebol yn 2015/16 oedd dwywaith, pan ddylai fod wedi digwydd bedair gwaith. Bydd nodyn esboniadol (a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg) yn cael ei roddi i'r Archwiliwr Allanol.
- Arian Mân ddim yn cael ei gysoni tan 27ain Ebrill ar ddiwedd y flwyddyn, unwaith eto oherwydd mater staffio. Hefyd, caiff adrodd am Arian Mân i'r Cyngor ei ystyried ymhellach gan Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

- i) *Derbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol;*
- ii) *Cydnabod a chymeradwyo'r materion a'r argymhellion a nodwyd.*

4. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynodd Clerc y Dref Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor Tref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'w gynnwys gyda'i Ddatganiadau Ariannol 2015/16.

Tynnodd Clerc y Dref sylw'r Aelodau at Ran 2 y Datganiad lle'r oedd tic wedi ei ddodi yn y blwch 'Na' fel a grybwyllwyd fel rhan o'r eitem flaenorol, ac ail-adroddodd y byddai nodyn esboniadol yn cael ei roi i'r Archwiliwr Allanol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad.

5. DATGANIAD BLYNYDDOL CYNGHORAU YNG NGHYMRU

Cyflwynodd Clerc y Dref y Datganiad Blynyddol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'w gyflwyno i'r Archwiliwr Allanol, i'w cymeradwyo gan yr Aelodau.

PENDERFYNWYD:

- i) cymeradwyo'r Datganiadau Cyfrifeg a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w cynnwys gyda'r Datganiad Blynyddol ar gyfer 2015/16.
- ii) awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i lofnodi'r Datganiad Blynyddol.

6. DATGANIADAU ARIANNOL 2015/16

Cyflwynodd Clerc y Dref Ddatganiadau Ariannol 2015/16 a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Rheoli Risg, Rheolaeth Fewnol, Datganiad Incwm a Gwariant, Mantolen a Nodiadau Ategol i'r Cyfrifon (Cyfrifon Terfynol) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r Aelodau eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol.

7. STRATEGAETH FUDDSODDI 2016/17 - DIWEDDARIAD

Ymhellach i gofnod rhif 102 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Ionawr 2016, cyflwynodd Clerc y Dref y cyd-adroddiad ganddo ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar berfformiad y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2016/17 hyd yma ac yn gofyn am gymeradwyaeth i fuddsoddiadau arfaethedig i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r buddsoddiadau arfaethedig.

8. EITEM ER GWYBODAETH: ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2015/16

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Ariannol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu'r Pwyllgor o berfformiad buddsoddiadau dros flwyddyn 2015/16.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

[Ar ddiwedd eitemau 2-8, mynegodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, werthfawrogiad y Cyngor i'r Swyddog Cyllid am ei waith ar yr adroddiadau a'r dogfennau a grybwyllwyd ynddynt.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, ymatebodd y Swyddog Cyllid, Mr A. O. Williams, ei fod wedi cael ei groesawu gan dîm da, ei fod bellach wedi arolygu'r holl faterion ariannol a'i fod yn mwynhau'r gwaith ar ôl cwblhau chwe mis yn y swydd]

9. PENODI PWYLLGORAU/IS-BWYLLGORAU AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/17

Cyflwynwyd yr atodlen bwyllgorau (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar gyfer ei diwygio a'i chymeradwyo ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016/17.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- (i) Y Cynghorydd B. Blakeley yn cael ei dynnu oddi ar y Pwyllgor Cynllunio;
- (ii) Y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James yn cael ei chynnwys ar y Pwyllgor Cynllunio;
- (iii) Y Cyngorwyr P. Prendergast ac A. J. Rutherford yn cael eu tynnu oddi ar yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd.

10. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR STAFFIO

Ymhellach i gofnod rhif 12 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor **PENDERFYNWYD** ail-benodi'r Cyngorwyr A. J. Rutherford a P. Prendergast fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Staffio.

11. ENWEBIADAU AR GYFER PENODI CYNRYCHIOLWYR I WASANAETHU AR GYRFF ALLANOL AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/17

Cyflwynwyd yr atodlen o bwyllgorau (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'w diwygio a'i chymeradwyo ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016/17.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- (i) Wrth ystyried salwch y Cynghorydd B. F. Moylan, bod y Cynghorydd A. J. Rutherford yn dod yn gynrychiolydd ffurfiol ar y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau a bod y Cynghorydd Moylan yn mynd yn ddirprwy.
- (ii) Mewn perthynas â chynrychiolwyr Bwrdd Prosiect Gogledd Sir Ddinbych Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn wyneb y cynrychiolwyr yn dweud nad oeddynt ar hyn o bryd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd, bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Nicola Stubbins, Cyngor Sir Ddinbych a'r Cynghorydd Sir Bobby Feely i ofyn am unrhyw wybodaeth sydd ganddynt ar gynydd gan y Grŵp.
- (iii) Rhoi'r gorau i gynrychiolaeth ar Grŵp Llywio Connect 2.
- (iv) Penodi'r Cynghorydd B. Blakeley i Grŵp Rhanddeiliaid Hafan Deg. Y penodiad i ddechrau unwaith y byddai'r ymgynghori presennol wedi ei gwblhau.
- (v) Mewn perthynas â Fforwm Harbwr Foryd, Clerc y Dref i holi'r Cynghorydd Miss S. L. Roberts i weld os oedd yn medru parhau fel dirprwy ac os nad oedd, y Cynghorydd Barchedig S. Walker i'w benodi.
- (vi) Rhoi'r gorau i gynrychiolaeth ar Fwrdd Prosiect Harbwr Foryd.

- (vii) *Rhoi'r gorau i gynrychiolaeth ar Sefydliad y Galon Prydain.*
- (viii) *Y cynrychiolydd ar Fforwm Defnyddwyr Marine Lake fyddai'r Cynghorydd Mrs E. M. Chard a'r dirprwy, y Cynghorydd S. H. Ratcliffe.*
- (ix) *Rhoi'r gorau i gynrychiolaeth ar Grŵp Cyn-filwyr y Gogledd-ddwyrain.*
- (x) *Mewn perthynas â Grŵp Consortiwm Strategaeth Dinas y Rhyl, Clerc y Dref i holi i weld os oedd y Grŵp yn dal yn weithgar ac os nad oedd, rhoi'r gorau i'r gynrychiolaeth.*
- (xi) *Mewn perthynas â Grŵp Llywio Partneriaeth Gymunedol y Rhyl, ychwanegu'r Cynghorydd Ms J. McAlpine fel dirprwy.*
- (xii) *Rhoi'r gorau i gynrychiolaeth ar Fwrdd Rhaglen Cymdogaethau a Lleoedd y Rhyl yn Symud Ymlaen.*
- (xiii) *Rhoi'r gorau i gynrychiolaeth ar Grŵp Llywio Cynllun Tref ac Ardal y Rhyl.*
- (xiv) *Rhoi'r gorau i gynrychiolaeth ar Grŵp Rheoli Canol Tref y Rhyl a nodi nad oedd penderfyniad blaenorol y Cyngor i dalu costau TAW a achoswyd gan y Grŵp i brynu goleadau addurniadol bellach ei angen.*

12. LLYWODRAETHWYR YSGOL 2016/17

Cyflwynwyd yr atodlen o Lywodraethwyr Ysgol er gwybodaeth (dosbarthwyd gyda'r rhaglen) ond cafodd ei newid i adlewyrchu'r ffaith bod y Cynghorydd B. Blakeley wedi ymddiswyddo fel y Llywodraethwr a benodwyd ac wedi ei ddisodli gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine.

Dywedodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James yr hoffai ymddiswyddo fel Llywodraethwr Ysgol Christchurch.

PENDERFYNWYD *cydnabod penodiad y Cynghorydd Ms J. McAlpine fel Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol i Ysgol Llywelyn a phenodi'r Cynghorydd W. N. Tasker fel Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol y Cyngor ar gyfer Ysgol Christchurch.*

13. EITEM GAN AELOD: CYFLYMDER TRAFFIG AR YR A525

Dywedodd y Cynghorydd S. H. Ratcliffe ei fod wedi derbyn cyflwyniadau yn ymwneud â chyflymder traffig yn dynesu at gylchfan Sainsburys ac yna'n newid lonydd i fynd i mewn i'r Rhyl, a gofynnodd am gefnogaeth i fonitro a chymryd camau gan Swyddogion Priffyrdd y Sir.

PENDERFYNWYD *cyfarwyddo Clerc y Dref i drefnu cyfarfod safle gyda Mr Peter Lea o Gyngor Sir Ddinbych a chynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru ac aelodau a oedd ar gael.*

14. EITEM GAN AELOD: CYFLWR PLATIAU ENWAU STRYD YN WARD PLASTIRION

Dywedodd y Cynghorydd S. H. Ratcliffe bod cysylltiad wedi ei wneud ag ef mewn perthynas â nifer o blatiau enwau stryd yn ei ward a oedd wedi pylu i'r pwynt lle na ellid darllen enwau'r strydoedd.

Cytunodd Aelodau eraill bod y sefyllfa'n debyg yn eu wardiau hwythau.

PENDERFYNWYD *bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych i'w hysbysu o'r mater a gofyn iddynt pa gamau a fyddai'n cael eu cymryd.*

15. EITEM GAN AELOD: TEIS A SGARFFIAU'R CYNGOR TREF

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE am gefnogaeth yr Aelodau i ystyried cyflwyno tei neu sgarff y Cyngor Tref i gyn-Feiri, fel y bo'n briodol.

Teimlai'r Aelodau y gellid ehangu'r cynnig i bob Aelod er mwyn galluogi iddynt fod yn adnabyddus wrth gynrychioli'r Cyngor mewn digwyddiadau hyrwyddo, yn enwedig o ystyried y nifer o ddigwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal gan y Cyngor ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn paratoi adroddiad, yn cynnwys costau, a'i gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol.

16. GARDD GOFFA

Dywedodd Clerc y Dref iddo dderbyn cais mewn perthynas â gosod plac yn yr Ardd Goffa.

PENDERFYNWYD awdurdodi Clerc y Dref i wario hyd at £1,000 i ddarparu mainc addas er mwyn delio â cheisiadau o'r fath.

17. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

18. SIOP CYNGOR AR FUDD-DALIADAU

Ymhellach i gofnod rhif 124 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17eg Chwefror 2016, cyflwynodd Clerc y Dref adroddiad cyfrinachol ac argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

19. CAIS I GYD-WEITHIO – CANOLFAN CYNGOR AR BOPETH (CAB)

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol yn ymwneud â chysylltiad a wnaed gan y gyfundrefn uchod mewn perthynas â'r posibilrwydd o gyd-ariannu swydd i gynghori ar dlodi tanwydd.

PENDERFYNWYD cyflwyno'r cais i'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol i'w ystyried yn fanwl.

20. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

21. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:.....

Dyddiad:.....